



Y FFATRI OGLEDDOL FFYRDD
RHODFA

Y TÎM A WNAETH Y GWAITH

HB

CLEIENT

AUK

GWERTH

£4,100,000

YMGYNGHORWYR

TIER

MANYLION

Roedd y prosiect yn gofyn ailadeiladu'r Ffordd Rodfa bresennol i greu ffordd a fyddai'n gallu darparu'n rhannol ar gyfer y llwythwr adenydd A350 XWB newydd sy'n pwysu 100 o dunelli.

Aeth ymgynghorwyr Tier ati i gynllunio ffordd fyddai'n cymryd llwyth mor anarferol. Roedd hyn yn gofyn adeiladu 600mm o MOT, 2 haen o TX Geogrig c/w. haen sylfaen 280mm a haen smentaidd ar yr arwyneb

Amnewidiwyd 21,000 m2 o ffordd gan ddarparu mynediad i gerbydau ar yr un pryd i mewn i fannau cynhyrchu gerllaw. Roedd hyn yn cynnwys signalau traffig Pennod 8 a symudiadau dan arweiniad yn yr amseroedd prysuraf
Roedd y gwaith galluogi yma'n cynnwys ailgyfeirio gwaith pibellau aer cywasgedig, prif bibellau chwistrellu, ceblau cyfathrebu a draeniad a siambrau cysylltiedig. Draeniwyd y safle gyda 4 cilomedr i ddraeniau tir a dalbyllau wedi eu cysylltu at system 1200 dia oedd yno'n barod. Cwblhawyd y prosiect drwy osod llwybrau cerdded a 34,000 m2 o dirlunio.





Hollingsworth Bros (UK) Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y RHAGLEN

Elfen allweddol yn y broses o sicrhau'r prosiect yma oedd tawelu meddwl AUK y gallem ddarparu gwasanaeth pan oedd hi'n hanfodol bwysig gwneud hynny.

Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i ni dorri allan ac adnewyddu tua 4,000m² o ffordd o fewn 16 diwrnod. Y rheswm am hynny oedd bod angen gweithio yn ystod gwyliau haf AUK.

Sylweddolodd Hollingsworth Bros beth oedd maint y dasg a defnyddiodd ei adnoddau gan weithio 14 awr y dydd am y gwyliau cyfan o 16 diwrnod. Trosglwyddwyd y ffordd a'r gylchfan yn brydlon yn barod i'r cwmni ddychwelyd i'w waith. Trosglwyddwyd y prosiect cyfan fel rhaglen 36 wythnos

ARLOESI

Roedd y ffordd rodfa'n cael ei defnyddio i gludo crwyn adenydd o'r man cynhyrchu i'r adeilad MIC i gael eu prosesu ymhellach. Roedd y peiran trelar yn mesur oddeutu 40 metr o hyd. Ni ellir ymyrryd â symudiad cerbyd o'r fath. Darparodd Tier ddarluniadau llwybr ysgubedig ar gyfer y cerbyd a adawodd i ni blotio trac y peiran trelar a gosod ffyrdd dros dro i helpu ei symudiad. I sicrhau ymhellach ei fod yn gallu symud yn rhwydd drwy ein gweithfan byddai gweithiwr pwrpasol yn tywys y peiran trelar drwy ein gweithfan i gyd.

Cynhyrchodd HB ddarluniadau'n dangos y gwaith mewn camau gyda rheoliadau traffig dros dro ar gyfer traffig y safle.

BODDHAD Y CLEIENT

Dywedodd AUK bod y ffordd newydd a'r saerniaeth wedi gosod safon newydd i bob ffordd yn y dyfodol yn safle Brychdyn.

